MAI 2025

YSGOL PENNAL

# LLEISIAU PENNAL

## GWERSYLL GLANLLYN



Ar y 30ain o Ebrill aeth Blwyddyn 3-6 Ysgol Pennal a Corris i wersyll Glan Llyn am y noson. Roedd gweithgareddau di-ri wedi eu paratoi ar ein cyfer. Cychwynnom drwy wneud ychydig o saethyddiaeth, yna gwyllt grefft. Cafodd y plant gyfle i ddysgu sut i gychwyn tân eu hunain gan ddefnyddio fflint a dur a thostio malws melys. Cafwyd hwyl ar y cwrs rhaffau ac roedd ambell un digon dewr i geisio camu oddi ar y 'disgynnydd'. Gorffennwyd y diwrnod cyntaf gyda ffilm, a phawb wedi blino'n lân!



Roedd diwrnod dau'r un mor brysur. Cychwynnom drwy fynd ar Lyn Tegid ar ganŵ. Rhwyfodd pawb er mwyn dod i ddarn o dir ble chwaraeom gemau a ble darganfuwyd coeden hyd ble fedrwch ddringo oddi tani hi. Gorffennwyd y trip drwy ddefnyddio ein sgiliau cydweithio i adeiladu rafft. Trip llwyddiannus dros ben! Diolch i staff gwersyll yr Urdd am eu gwaith caled a chroeso pob amser, ac i blant y ffederasiwn am fihafio mor arbennig o dda drwy'r ymweliad cyfan.











MAI 2025

YSGOL PENNAL

# CELF A CHREFFT YR URDD

Llongyfarchiadau i'r disgyblion ar eu llwyddiant yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd Rhanbarth Meirionnydd.
Cynhaliwyd y Noson Wobrwyo yng Nglanllyn, Llongyfarchiadau.

Cynllunio Crys-T Blwyddyn 3 a 4
1af Calianne Higgs

Llun 2D Blwyddyn 5 a 6
3ydd Pearl Silvester

Ffotograffiaeth Llun Du a Gwyn Blwyddyn 3 a 4
1af Harry Larkin

Ffotograffiaeth Cyfres o Luniau Du a Gwyn Blwyddyn 3 a 4
1af Harry Larkin

Argraffu Bl2 ac iau
2il Riley Johnson-Betts




Argraffu Blwyddyn 3 a 4
3ydd Melys Morus-Baird

Tecstiliau Creadigol Bl2 ac iau
2il Arrow Onnen
3ydd Riley Johnson-Betts




Uwchgylchu Blwyddyn 3 a 4
3ydd Harry Larkin



# ASTUDIO'R ARDAL LEOL



Fel rhan o waith thema 'Yr oes a fu', aeth plant 7-11 ar daith o amgylch y pentref. Roedd yn gyfle i ni ymweld ag adeiladau hanesyddol a phwysig ein pentref. Roedd yn fore braf iawn. Cerddom fyny at 'Cefn Caer' a draw at 'Plas Talgarth', gan weld adeiladau pwysig eraill y pentref ar y ffordd. Byddwn yn defnyddio lluniau casglwyd ar y daith yn ein gwaith dosbarth yn ystod y tymor.
Ysgrifennwyd gan Dosbarth 7-11 oed



# WYN BACH JACK

Diolch yn fawr iawn i Anti Kim, Yncl Barry a Jack Norman am gael mynd am dro i gaeau Glan Yr Afon i gael gweld, anwesu a bwydo'r wyn bach a'r defaid. Roedd y tro cyntaf i rai ohonom fynd i iard fferm go iawn. Cafodd pob un ohonom brynhawn arbennig, er fod angen i ni wisgo het, sbecdol, eli ac yfed dŵr er mwyn bod yn hapus a diogel yn yr haul.
Fel ac a ddywedwyd gan Silyn, Emilia, Ayda a Llewyn.





# DIOGELWCH Y FFORDD



'Da ni wedi bod yn dysgu sut i fod yn hapus a diogel wrth groesi'r ffordd. Yn gyntaf roedd angen chwilio am y lle gorau i allu gweld i groesi, sef ar y doti dots, wedyn ymarfer croesi'r ffordd mewn llinell syth. Rydym ni wedi ymarfer gafael llaw, sefyll ar y palmant, aros yn ofalus tu ôl i'r cwrb, a defnyddio'r llygaid i edrych am draffig a'r clustiau i wrando am y traffig. Mae'n bwysig iawn ein bod yn dal ati i edrych a gwrando wrth groesi hefyd.

Un o'r pethau gorau am amser Kerbcraft efo Auntie Shirley oedd chwarae rôl cega a cwffio yn y car! Roedd Auntie Shirley yn cogio gyrru'r car, ac Arrow a Silyn yn actio ffraeo a gweiddi yn y set tu ôl! Mae'n bwysig cadw dwylo i ti dy hun a defnyddio llais addas yn y car. Mae'r gyrrwr angen canolbwyntio a cadw llygaid ar y ffordd fawr. Mae'n bwysig eistedd mewn sêt booster a rhoi clic i'r wregys hefyd er mwyn bod yn ddiogel ar y daith. Y peth gorau un oedd y seremoni wobrwyo ar y diwedd. 'Da ni wrth ein bodd yn gwisgo ein medalau. Mae blwyddyn un yn edrych ymlaen yn ofnadwy i gael gwobrau ym mlwyddyn dau!

Fel ac a ddywedwyd gan Jack, Riley, Amy, Arrow, Harry, Zephyr a Robin.




Bu Blwyddyn 5 a 6 yn defnyddio gwn radar i fesur cyflymdra cerbydau yn teithio drwy'r pentref.






# ARCHIF GWYNEDD

Diolch i Mr Gwyn Ellis, Swyddog Addysg Archifau Gwynedd am ymweld a'r ddau ddosbarth i ddangos arteffactau ers talwm. Roedd Mr Ellis wedi paratoi pwerbwynt diddorol iawn o hanes yr ysgol ers talwm a rydym yn ddiolchgar iawn iddo am sgwrs ddifyr iawn.









# AMGUEDDFA LLOYD GEORGE



Mae pawb yn yr ysgol wedi cael cyfle i fynd i Amgueddfa Lloyd George.
Cawsom gyfle i weld y ty lle cafodd Lloyd George ei eni a chael cyfle i weld sut oedd pobl oes Fictoria yn golchi dillad. Roedd yn ddiddorol dysgu sut oedd pobl yn byw ers talwm.

Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad i fynd i'r hen ysgol. Cafodd pawb wisgo gwisg Fictorianaidd. Roedd yn rhaid eistedd ar feinciau pren caled, roedd merched un ochr a bechgyn ochr arall.
Roeddem wedi mwynhau, ond roedd ysgolion yn llym iawn ers talwm, mae ysgol heddiw llawer gwell!










# MINI MARATHON

Cawsom brynhawn hwyliog iawn dydd Llun yn rhedeg a cherdded i Gwerniago a nol - 2 filltir a hanner! Roedd hi'n werth gweld y disgyblion o'r Meithrin i Flwyddyn 6 yn dal ati ac yn mwynhau. Codwyd £1150 o arian noddedig tuag at brynu offer newydd i'r ardal allanol a diolch yn fawr am eich cefnogaeth.







